# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 27 Mawrth 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(56)v4

### 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog (60 munud)

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

### 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

### 3. Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol: Ymgynghoriad ar awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân i Gymru (30 munud)

### 4. Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd: Strategaeth Pysgodfeydd Cymru (30 munud)
**Dogfen Ategol:**
Strategaeth Pysgodfeydd Cymru 2008
(Saesneg yn unig)

### 5. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gwasanaethau Ariannol (15 munud)

**NDM4913 Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Bil Gwasanaethau Ariannol fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin ar 26 Ionawr 2012 mewn perthynas â'r Corff Addysg Ariannol Defnyddwyr (CAAD), i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Chwefror 2012 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(i).

**Dogfennau Ategol**
Bil Gwasanaethau Ariannol – Saesneg yn unig
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol
Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

**6. Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Trosglwyddo Swyddogaethau, Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol) 2012 (15 munud)**

**NDM4949 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Trosglwyddo Swyddogaethau, Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol) 2012 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mawrth 2012.

**Dogfennau Ategol**
Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Trosglwyddo Swyddogaethau, Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol) 2012
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**7. Dadl: Cynllun Drafft ar Hawliau Plant i'w gymeradwyo o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 (60 munud)**

**NDM4950 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag adran 3(6) o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011:

Yn cymeradwyo'r Cynllun Hawliau Plant drafft a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 20 Mawrth 2012.

**Dogfen Ategol**
Cynllun Hawliau Plant

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw'r cynllun yn mynnu bod Llywodraeth Cymru yn adrodd i'r Cynulliad Cenedlaethol yn flynyddol ar gydymffurfio â'i dyletswydd i roi sylw dyledus

i’r CCUHP.

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw’r cynllun yn cynnig cyfleoedd cryfach ar gyfer herio’n briodol os ystyrir nad yw Gweinidogion Cymru wedi cydymffurfio â’u dyletswydd i roi sylw dyledus i’r CCUHP.

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw’r Cynllun yn darparu ar gyfer mecanwaith adrodd cadarnach sy’n mynnu bod Gweinidogion Cymru’n adrodd yn amlach i’r Cynulliad.

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 28 Mawrth 2012